OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2004 Rhif 392 (Cy.40)

# BWYD, CYMRU

## Rheoliadau Bwyd (Tsilis Poeth a Chynhyrchion Tsilis Poeth) (Rheolaeth Frys) (Diwygio)(Cymru) 2004

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | - - | *16 Chwefror 2004* |
| *Yn dod i rym* | - - | *17 Chwefror 2004* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ac yntau wedi'i ddynodi(**1**) at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**2**) mewn perthynas â mesurau sy'n gysylltiedig â bwyd, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan yr adran honno, yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

**Teitl a chychwyn**

**1.** Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Bwyd (Tsilis Poeth a Chynhyrchion Tsilis Poeth) (Rheolaeth Frys) (Diwygio) (Cymru) 2004 a deuant i rym ar 17 Chwefror 2004.

**Diwygiadau i Reoliadau Bwyd (Tsilis Poeth a Chynhyrchion Tsilis Poeth) (Rheolaeth Frys) (Cymru) 2003**

**2.**—(1) Caiff Rheoliadau Bwyd (Tsilis Poeth a Chynhyrchion Tsilis Poeth) (Rheolaeth Frys) (Cymru) 2003(**3**) eu newid yn unol â pharagraff (2).

(2) Ym mharagraff (1) o reoliad 2 (dehongli) —

(a) yn lle'r diffiniad o "Penderfyniad y Comisiwn" ("*the Commission Decision*") rhodder y diffiniad canlynol —

> "ystyr "Penderfyniad y Comisiwn" ("*the Commission Decision*") yw Penderfyniad y Comisiwn dyddiedig 21 Ionawr 2004 ar fesurau brys mewn cysylltiad â tsilis a chynhyrchion tsilis;"; a

(b) yn lle'r diffiniad o "tsilis poeth a chynnyrtsilis poeth" ("*hot chilli and hot chilli products*") rhodder y diffiniad canlynol —

> "ystyr "tsilis poeth a chynhyrchion tsilis poeth"("*hot chilli and hot chilli products*") yw —

(**1**) O.S. 2003/2901.
(**2**) 1972 p. 68.
(**3**) O.S. 2003/2455 (Cy.238).

(a) ffrwythau'r genws Capsicum, sydd wedi'u sychu a'u gwasgu neu wedi'u malu ac sy'n dod o dan God CN 09042090; a

(b) powdwr cyrri sy'n dod o dan God CN 091050;".

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**4**)

*D.Elis-Thomas*

16 Chwefror 2004 — Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**4**) 1998 p. 38.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Bwyd (Tsilis Poeth a Chynhyrchion Tsilis Poeth) (Rheolaeth Frys) (Cymru) 2003 (O.S. 2003/2455 (Cy.238)) er mwyn gweithredu Penderfyniad y Comisiwn dyddiedig 21 Ionawr 2004 ar fesurau brys mewn cysylltiad â tsilis a chynhyrchion tsilis ("y Penderfyniad newydd"). Diddymwyd Penderfyniad y Comisiwn 2003/460/EC ar fesurau brys mewn cysylltiad â tsilis poeth a chynhyrchion tsilis poeth (OJ Rhif L154, 21.6.2003, t.114) gan y Penderfyniad newydd.

Dyma'r gwahaniaethau rhwng y Penderfyniad newydd a Phenderfyniad y Comisiwn 2003/460/EC—

(a) mewn perthynas â phowdwr cyrri, mae'r Penderfyniad newydd yn ymestyn y mesurau brys a nodwyd eisoes ym Mhenderfyniad y Comisiwn 2003/460/EC mewn cysylltiad â tsilis sydd wedi'u sychu a'u gwasgu neu eu malu. Caiff y newid hwn ei weithredu trwy fewnosod yn O.S. 2003/2455 (Cy.238) (*rheoliad 2(2)(b)*) ddiffiniad diwygiedig o "tsilis poeth a chynhyrchion tsilis poeth" ("*hot chilli and hot chilli products*"); a

(b) mae'r Penderfyniad newydd yn diwygio'r amodau ar gyfer mewnforio tsilis a chynhyrchion tsilis drwy ddarparu y gwaherddir mewnforio onid yw'r adroddiad dadansoddiadol sy'n dod gyda'r llwyth yn dangos nid yn unig bod y cynnyrch ddim yn cynnwys Swdan I (Rhif CAS 842-07-9) ond, at hynny, nad yw'n cynnwys Swdan II (Rhif CAS 3118-97-6), Swdan III (Rhif CAS 85-86-9) neu Scarlet Red neu Swdan IV (Rhif CAS 85-83-6). Caiff y newid hwn ei weithredu trwy fewnosod yn O.S. 2003/2455 (Cy. 238) (*rheoliad)2(2)(a)*) ddiffiniad diwygiedig o "Penderfyniad y Comisiwn" ("*the Commission Decision*").

Rhif au cod y gyfundrefn enwi a sefydlwyd o dan Reoliad 2658/87 ar y tariff a'r gyfundrefn enwi ystadegol ac ar dariff y tollau (OJ Rhif L256, 7.9.87, t.1) yw'r codau CN y cyfeirir atynt yn y diffiniad o "tsilis poeth a chynhyrchion tsilis poeth" ("*hot chilli and hot chilli products*").

Nid oes arfarniad rheoliadol wedi'i baratoi mewn cysylltiad â'r Rheoliadau hyn.